Comisiwn
Trefnu a Gorfodi
Cynhaliaeth Plant

# Ymateb y Llywodraeth i Ymgynghoriad ar Reoliadau Drafft

## Y Rheoliadau Cyfrifo Cynhaliaeth Cynnal Plant 2012

## a'r

## Rheoliadau Cynhaliaeth Cynnal Plant (Newidiadau i Gyfrifo'r Gyfradd Sylfaenol a'r Isafswm Atebolrwydd) 2012

## Gorffennaf 2012

# Cynnwys

Cyflwyniad …………………………………………………………………………….3

Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cynhaliaeth Cynnal Plant (Newidiadau i Gyfrifo'r Gyfradd Sylfaenol a'r Isafswm Atebolrwydd) 2012 drafft
ac

Ymateb y Llywodraeth …………………………………………………….........4

Atodiad A - Rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad …………………………..16

## Cyflwyniad

1. Y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth ("y Comisiwn") sy'n gyfrifol am bolisi cynhaliaeth plant. Mae ei fraich weithredol, yr Asiantaeth Cynnal Plant, yn rhoi gwasanaeth cynhaliaeth statudol. O dan Ddeddf Cynnal Plant 1991 a Deddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008 mae'n rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod rhieni yn parhau i gynnal eu plant hyd yn oed pan na allant fyw gyda'i gilydd, drwy:

    - Cynyddu'r cyfrifoldeb ariannol sydd gan rieni am eu plant;
    - Rhoi gwybodaeth a chefnogaeth am y gwahanol opsiynau cynhaliaeth plant sydd ar gael; a
    - Rhoi gwasanaeth effeithlon cynhaliaeth plant statudol.

2. Rhwng 1af Rhagfyr 2011 a 23ain Chwefror 2012 lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau Cynhaliaeth Cynnal Plant 2012 a Rheoliadau Cynhaliaeth Cynnal Plant (Newidiadau i Gyfrifo'r Gyfradd Sylfaenol a'r Isafswm Atebolrwydd) drafft. Roedd y ddogfen ymgynghori, ynghyd â'r dogfennau ategol fel y Rheoliadau drafft, Asesiad Effaith a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gael ar wefannau'r Comisiwn a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Bu i'r Comisiwn hysbysu ei brif fudd-ddeiliadid o'r ymarferiad ymgynghori. Cynhaliwyd cyfarfod budd-ddeiliaid ym mis Ionawr 2012 lle cyfarfu Maria Miller AS, y Gweinidog ar gyfer Pobl Anabl, aelodau o Weithrediaeth y Comisiwn a'r prif budd-ddeiliaid i drafod eu syniadau cychwynnol am y newidiadau arfaethedig o fewn yr ymgynghoriad.

3. Derbyniodd y Comisiwn drideg chwech o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae rhestr o ymatebwyr yn **Atodiad A**. Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar am y cyfraniadau a dderbyniwyd. Caiff y Rheoliadau terfynol eu cyflwyno i'r Senedd ym mis Gorffennaf 2012 ac yn ddibynnol ar gymeradwyaeth Seneddol, byddant yn dod i rym yn ddiweddarach eleni.

Mae'r ddogfen hon yn gosod allan y prif bwyntiau a wnaed gan ymatebwyr ac yn rhoi ymateb y Llywodraeth. Ni ddylai hyn gael ei gymryd fel dehongliad awdurdodol o'r gyfraith. Dim ond gan Lys y gellir cael y fath ddehongliad.

Bydd y Rheoliadau terfynol a'r memorandwm eglurhaol ar gael ar wefan Swyddfa Gwybodaeth Y Sector Cyhoeddus yn:
hhttp://www.opsi.gov.uk/si/si-2012-index

Mae'r ddogfen yma ar gael ar wefan y Comisiwn yn:
http://www.childmaintenance.org/en/publications/consultations.html

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cyfrifo Cynhaliaeth Cynnal Plant 2012 a Rheoliadau Cynhaliaeth Cynnal Plant (Newidiadau i Gyfrifo'r Gyfradd Sylfaenol a'r Isafswm Atebolrwydd) 2012 drafft ac ymateb y Llywodraeth

4. Roedd 36 ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi rhai cynigion, yn erbyn rhai eraill ac yn cefnogi rhai gydag amodau. Newidiwyd dau gynnig yn dilyn sylwadau a wnaed gan ymatebwyr. Ond, parthed y cynigion eraill, nid yw'r Llywodraeth wedi newid eu barn y byddai'r cynigion ar gyfer y cynllun statudol, ynghyd â rhwydweithiau cefnogi eraill ar gyfer teuluoedd sydd yn, neu sydd wedi, gwahanu, yn rhoi llwyfan gadarn i'r cynllun cynhaliaeth cynnal plant newydd.

### Ymgynghoriad - Cwestiynau Penodol

5. Fel rhan o'r ymgynghoriad, bu i'r Comisiwn ofyn deg cwestiwn penodol am y newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth. Cyflwynir y sylwadau ar gwestiynau'r Ymgynghoriad ac ymatebion y Llywodraeth isod.

### Cwestiwn Ymgynghori 1: Ydych yn cytuno gyda'r cynnig i symud myfyrwyr o'r achosion cyfradd sero a chyfrifo atebolrwydd ar eu hincwm gros wythnosol?

6. O fewn y cynllun cynhaliaeth plant statudol cyfredol (2003), mae gan rieni dibreswyl sydd yn fyfyrwyr atebolrwydd awtomatig o sero, beth bynnag yw eu hincwm. Mae nifer arwyddocaol o fyfyrwyr yn gweithio wrth astudio ac mewn rhai achosion gall enillion fod yn sylweddol. Felly, nid yw bellach yn ymddangos yn ddilys i wneud penderfyniad ar y rhagdybiaeth nad yw myfyrwyr yn gweithio.

7. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig symud myfyrwyr oddi ar y grwpiau cyfradd sero ac i'w hatebolrwydd gael ei asesu ar eu hincwm wythnosol gros. Byddai hyn yn golygu eu bod yn cael eu trin yn yr un modd a'r rhan fwyaf o rieni dibreswyl eraill.

### Ymatebion ymatebwyr

8. Roedd y rhai a ymatebodd yn cefnogi'r cynnig yn llwyr.

9. Ond, bu i ddau sefydliad budd-ddeiliol sef Families Need Fathers and Gingerbread, sydd yn cefnogi'r newid, godi rhai pryderon.

- Dywedodd Families Need Fathers "mae'r potensial i ennill mwy drwy gael addysg bellach yn golygu ei fod o fudd hirdymor i'r plant dan sylw i'r rhieni hyn beidio cael eu hannog rhag parhau gyda'u hastudiaethau".

- Dywedodd Gingerbread “bydd angen i’r Comisiwn feddwl yn ofalus am sut bydd yn casglu cynhaliaeth (gan gynnwys cymryd gweithredoedd gorfodi) gan rieni dibreswyl gydag incwm blynyddol sy’n codi a gostwng drwy gydol y flwyddyn (er cael ei adlewyrchu’n fanwl gywir yn y data hanesyddol CThEM)”.

**Ymateb y Llywodraeth**

10. Bydd tynnu myfyrwyr oddi ar y gyfradd sero a defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan CThEM yn golygu y bydd rhieni â gofal yn elwa o wasanaeth mwy effeithiol a chynyddu’r nifer o blant sy’n cael eu cynnal yn ariannol gan y rhiant sydd ddim yn byw gyda nhw.

**Canlyniad**

11. Mae’r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno’r newid a gynigwyd yn y ddogfen ymgynghori gyhoeddus.

**Cwestiwn Ymgynghori 2: Ai gwneud rhagdybiaeth am rannu gofal yw’r ffordd orau i osgoi rhai o’r anawsterau ymarferol parthed cyfrifo rhannu gofal sy’n bodoli ar hyn o bryd?**

12. Pan na all rhieni gytuno ar y lefel o rannu’r gofal am eu plant, cynigir rhoi’r gallu i swyddogion achos, a fydd yn gwneud penderfyniadau ar y fath achosion, y gallu i ragdybio lefel rhannu gofal a chymhwyso’r dybiaeth honno i’r cyfrifiad. Bydd y rhagdybiaeth yn gymwys pan fydd gan swyddog achos sail i gredu bod rhannu gofal yn, neu am, ddigwydd, ond na all yn rhesymol ddod i benderfyniad am faint o rannu gofal sy’n digwydd. Y dybiaeth fydd bod y rhannu gofal yn digwydd ar lefel o un noson yr wythnos ar gyfartaledd - y swm mwyaf cyffredin o ofal fel y adlewyrchir yng nghyfrifon y cynllun cyfredol - a bydd yn parhau nes bydd rhieni yn dod i gytundeb am y lefel gwirioneddol o rannu gofal.

13. O ganlyniad, yn y dyfodol, cynigir y bydd addasiadau rhannu gofal yn seiliedig ar gytundebau mae rhieni wedi eu gwneud (ffurfiol neu anffurfiol) yn hytrach na’n seiliedig ar dystiolaeth o rannu gofal blaenorol. Pan fydd rhieni yn methu â chytuno neu fod diffyg tystiolaeth (fel na all swyddog achos wneud penderfyniad ar y lefel o rannu gofal) bydd swyddog achos yn gallu tybio lefel o rannu gofal sy’n gyfartal i un noson yr wythnos. Bydd y dybiaeth honno yn aros nes bydd y rhieni yn dod i gytundeb.

**Sylwadau’r ymatebwyr**

14. Nid oedd budd-ddeiliaid yn cefnogi’r cynnig. Yn gyffredinol, penderfynodd budd-ddeiliaid nad dyma’r weithred gywir i’w chymryd ac na fyddai’n datrys y problemau sy’n codi yn aml pan fo rhieni yn anghytuno. Mae yna ofn y bydd y rhagdybiaeth yn achosi i fwy o rieni â gofal dderbyn symiau llai o

gynhaliaeth. Roedd rhai o'r sylwadau beirniadol yn seiliedig ar y camddealltwriaeth fod y newid arfaethedig i reoliadau rhannu gofal am gael eu cymhwyso yn gyffredinol yn hytrach nag i'r amgylchiadau penodol y maent wedi eu bwriadu ar eu cyfer.

- Mae Gingerbread yn credu y byddai gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar gytundebau gofal yn arwain at rai rhieni â gofal yn wynebu gostyngiadau afresymol mewn cynhaliaeth. Mae'n awgrymu bod angen cadw golwg rheolaidd ar drefniadau rhannu gofal fel rhan o'r adolygiad blynyddol.

- Mae Families Need Fathers yn credu y bydd yn darparu cymhelliad i rieni â gofal gyfyngu cysylltiad rhieni dibreswyl â'u plant.

- Mae NACSA yn ystyried bod tueddiad o fewn yr Asiantaeth Cynnal Plant o ffafrio rhieni â gofal mewn achosion anghydfod ac yn credu na fyddai'r cynnig yma yn gallu gweithio yn yr hinsawdd honno.

- Mae Resolution a NACSA yn credu na fydd y cynnig yn cael llawer o effaith bositif ar leihau'r nifer o apeliadau sy'n ymwneud a hyn.

**Ymateb y Llywodraeth**

15. Mae gan rannu gofal y potensial o hyd, i fod yn sefyllfa anodd na all rhieni gytuno arno. Mae'r sefyllfa yn anoddach byth oherwydd nad oes modd o gofnodi pa fath o ofal sydd wedi ei ddarparu ac sydd heb y potensial i gael ei gamddefnyddio. Efallai na fydd rhai rhieni yn dilyn cytundeb llys air am air a gall hyn arwain at anghydfodau ar ddiwedd y flwyddyn os nad oes gan rieni yr un cof a'i gilydd o faint o rannu gofal sydd wedi cymryd lle. Felly byddai tystiolaeth o rannu gofal a gytunwyd arno o flaen llaw yn fwy dibynadwy ac yn ddull mwy ffafriol o asesu gofal o'r math yma.

16. Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried bod y sylwadau sydd wedi deillio o'r ymgynghoriad yn rhoi unrhyw reswm i beidio parhau gyda'r cynnig fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, rydym yn nodi pryderon yr ymatebwyr am y ffordd y dylai'r Comisiwn ddelio a'r achosion yma ac yna'n edrych i weld os oes lle i wella'r cyfarwyddyd a roddir i weithwyr achos a fydd yn gwneud y penderfyniadau ar achosion o'r math yma.

**Canlyniad**

17. Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai'r gweithiwr achos, yn absenoldeb cytundeb gan y rhieni neu dystiolaeth dderbyniol o rannu gofal, dybio lefel o un noson o rannu gofal ar ran y rhiant dibreswyl ble mae'r rhannu gofal mewn amheuaeth ac nid yw'r rhieni yn gallu cytuno ar yr union swm.

**Cwestiwn Ymgynghori 3: Ydych chi’n meddwl bod y gwiriad incwm presennol cyfnodol o werth i’r broses adolygu?**

18. Y bwriad yw i seilio cyfrifiadau cynhaliaeth, cyn belled ag sydd bosibl, ar wybodaeth incwm hanesyddol y rhiant dibreswyl fel y darperir gan CThEM. Defnyddir yr incwm presennol (fel y darperir gan y rhiant dibreswyl neu eu cyflogwyr) dim ond pan fydd yn gwbl wahanol i ffigurau CThEM neu pan nad oes manylion incwm ar gael gan CThEM.

19. Bob blwyddyn bydd CThEM yn rhoi gwybodaeth (pan ofynnir amdano) i’r Comisiwn am incwm hanesyddol newydd rhiant dibreswyl fel y daw manylion y flwyddyn dreth ddiweddaraf ar gael. Ble mae’r cyfrifiad presennol yn seiliedig ar incwm presennol rhiant dibreswyl, bydd y ffigwr a ddarperir gan CThEM yn cael ei gymharu gyda’r swm hwnnw. Os yw’r incwm presennol yn parhau i fod yn sylweddol uwch parheir i’w ddefnyddio.

20. I sicrhau bod yr incwm presennol yn parhau i fod yn gywir a chyfredol, bydd yn cael ei wirio eto unwaith bydd wedi bod mewn grym, heb newid, am gyfanswm o 11 mis. Gelwir hyn yn Wyriad Incwm Presennol Cyfnodol (PCIC). Golyga hyn bod rhaid i rieni dibreswyl ddarparu tystiolaeth ddiwygiedig o’u hincwm presennol i weld os yw’n parhau i wahaniaethu’n sylweddol o’r ffigwr a dderbyniwyd gan CThEM yn ystod yr adolygiad blynyddol diwethaf.

**Sylwadau’r Ymatebwyr**

21. Roedd y mwyafrif o fudd-ddeiliaid o blaid y Gwyriad Incwm Presennol Cyfnodol.

- Ddywedodd Y Family Law Bar Association bod “Adolygiadau cyfnodol yn ychwanegu gwerth oherwydd eu bod yn rhyddhau’r rhiant â gofal o’r cyfrifoldeb o fynd ar ôl y Comisiwn”.

- Rhoddwyd Resolution groeso gofalus i’r cynnig yma gan ddatgan pryderon am y ffaith bod “adolygiadau blynyddol wedi bod yn darged afrealistig yn y gorffennol” ac efallai byddant yn parhau i fod yn anodd eu trin.

- Roedd Families Need Fathers yn croesawu'r bwriad i gyflwyno gwyriad incwm cyfredol cyfnodol, ond, fe wnaethant hefyd ddweud “Rydym, fodd bynnag, yn cwestiynu os yw'r trothwy o 25 y cant ar gyfer y defnydd o incwm cyfredol yn hytrach nag incwm hanesyddol yn lefel addas. Os byddai incwm rhiant dibreswyl yn disgyn (hyd at 24 y cant), byddant yn parhau i fod yn destun y gyfradd atebolrwydd a gyfrifwyd yn flaenorol, a bennwyd cyn i’w hincwm leihau. Mae hyn yn debygol o roi straen mawr ar incwm a gallu rhieni dibreswyl i dalu. Hefyd, os byddai incwm rhiant dibreswyl yn codi, gallent fod yn darparu lefel o gymorth ariannol i’w plant sy’n llawer uwch na fyddent gyda’r trothwy a gynigir. Wrth ddeall yr angen i osod hyn ar lefel sy’n sicrhau na fydd newidiadau bychain neu dros dro yn

arwain at ailasesu ac oedi cysylltiol, mae'n glir y byddai cynnydd neu ostyngiad o ychydig llai na 25 y cant o incwm blynyddol rhiant yn cael effaith arwyddocaol ar safon byw'r rhieni a'r teuluoedd dan sylw. Rydym yn credu y byddai trothwy rhwng 15 a 20 y cant yn rhoi gwell cytbwysedd rhwng sicrhau nad yw'r system yn destun unrhyw sialensiau dianghenraid, a sicrhau bod rhieni a phlant yn cael eu cynnal yn ddigonol yn ddibynnol os yw incwm wedi cynyddu neu leihau".

**Ymateb y Llywodraeth**

22. Bydd y Gwyriad Incwm Presennol Cyfnodol yn sicrhau ein bod yn parhau i ddefnyddio incwm presennol diweddaraf rhiant dibreswyl with wneud y cyfrifiadau. Golyga hyn na fydd rhieni â gofal bellach yn gorfod gofyn i'r Comisiwn adolygu atebolrwydd cynhaliaeth a hefyd ni fydd achosion yn parhau gyda'r un atebolrwydd am flynyddoedd heb gael eu hadolygu

23. Er mwyn cynnal cyfrifiadau cynhaliaeth sefydlog sydd ddim yn destun amrywiadau rheolaidd bydd rhaid i incwm rhiant dibreswyl fod o leiaf 25 y cant yn wahanol i incwm hanesyddol gan CThEM. Ar wahân i newidiadau mawr fel diswyddiad, y disgwyl yw y bydd cyfrifiadau cynhaliaeth yn aros yr un fath am y flwyddyn, gan alluogi i rieni â gofal i gyllido a galluogi i rieni dibreswyl fod yn ymwybodol o faint o daliadau cynhaliaeth plant fydd eu hangen am y flwyddyn.

**Canlyniad**

24. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Gwyriad Incwm Presennol Cyfnodol i sicrhau bod o leiaf 25% o wahaniaeth rhwng yr incwm presennol a'r wybodaeth incwm hanesyddol diweddaraf a ddarperir gan CThEM.

**Cwestiwn Ymgynghori 4: Beth ydych yn ei feddwl o'r cynnig i gael gwared ar y seliau amrywio ar gyfer asedau a ffordd o fyw sy'n anghyson gydag incwm a ddatgenir, o ystyried yr agwedd newydd tuag at ddelio gydag incwm heb ei ennill?**

**Cwestiwn Ymgynghori 5: Beth yw eich sylwadau ar y seiliau newydd sy'n anelu at wneud y cynllun yn haws i fynd drwyddo, i'w ddeall a'i weinyddu ac i sicrhau, pan fo gan y rhiant dibreswyl incwm heb ei ennill sylweddol, y gellir ystyried hyn?**

25. Mae amrywiadau yn ein galluogi i edrych ar rai o'r amgylchiadau sydd heb eu cynnwys yn y rheolau cyfrifo sylfaenol. Os cytunir iddo, gall amrywiad arwain at addasiad i'r cyfrifiad cynhaliaeth. Gall achosion incwm ychwanegol (sydd ar gael i rieni â gofal) gynyddu'r cyfrifiad cynhaliaeth a gall treuliau arbennig (sydd ar gael i rieni dibreswyl) ostwng y cyfrifiad cynhaliaeth.

26. O dan y cynllun presennol, mae'r seiliau sydd ar gael i rieni â gofal yn cynnwys Asedau a Ffordd o fyw sy'n anghyson ag incwm a ddatgenir, ac mae'r ddwy sail yma yn golygu pennu ffigwr incwm tybiannol. Mae'r seiliau yma wedi profi i fod yn anodd eu gweinyddu yn y gorffennol ac maent yn rhai sy'n anodd i'n cleientiaid eu deall. Ar hyn o bryd, dim ond nifer gyfyngedig o ffyrdd sydd ar gael er mwyn gallu penderfynu am asedau rhiant dibreswyl yn llwyddiannus ac mae sawl cais a wneir ar sail ffordd o fyw'r rhiant dibreswyl yn aflwyddiannus am nad oes digon o wybodaeth yn cael ei rhoi gan y rhiant â gofal i allu ategu'r cais.

27. Yn y cynllun statudol newydd, bydd yr incwm a gynhyrchir gan ased yn cael ei gynnwys mewn ffurflen flynyddol i CThEM a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo atebolrwydd cynhaliaeth. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiwn i gael gafael ar ffigyrau incwm gwirioneddol yn hytrach na thybiannol. Bydd yr amrywiad ehangach ar gyfer incwm heb ei ennill yn galluogi'r Comisiwn i gasglu ystod ehangach o incwm hen ei ennill nag sy'n bosib ar hyn o bryd.

28. Bydd yr amrywiadau ar gyfer ffordd o fyw sy'n anghyson ag incwm yn cael eu gwaredu. Mae hyn oherwydd na all yr amrywiad yma ond ystyried incwm arall a ddefnyddir gan riant dibreswyl er mwyn ariannu eu ffordd o fyw. Mewn theori, golyga hyn, os yw rhiant dibreswyl wedi llawn ddatgelu eu hincwm, ni ddylai fod unrhyw angen am amrywiad ar y sail yma. Ar hyn o bryd, mae'r ceisiadau yma am amrywiad yn cael eu prosesu gan yr Uned Apeliadau Canolog, a dim ond nifer fechan o'r rhain sy'n dod i ganlyniad llwyddiannus er eu bod yn cronni costau gweinyddu.

29. Yn y cynllun newydd, anelwn at wneud y defnydd gorau o wybodaeth am incwm a roddir gan CThEM a bydd hynny'n arwain at benderfyniadau amrywio mwy cyflym ac eglur. Rydym felly wedi ehangu ein diffiniad o incwm er mwyn gallu delio gyda'r rhan helaeth o ffynonellau incwm eraill sydd ar gael ar gyfer incwm gros o hunangyflogaeth. Rydym yn cyfeirio at hyn fel incwm heb ei ennill. Mae hyn yn cynnwys incwm o eiddo, cynilion a buddsoddiadau yn ogystal ag incwm arall.

**Sylwadau'r ymatebwyr**

30. Roedd budd-ddeiliaid yn croesawu'r sail newydd ar gyfer incwm heb ei ennill sy'n annog gwell hygyrchedd o ran ffynonellau incwm rhieni dibreswyl.

- <u>Families Need Fathers</u> - "rydym yn cytuno bod y dull newydd o ddelio gydag incwm heb ei ennill yn gwaredu ar yr angen am seiliau ar gyfer ystyried asedau a ffordd o fyw sy'n anghyson ag incwm a ddatgenir".

31. Serch hynny, mae gan y rhan fwyaf o fudd-ddeiliaid bryderon cryf am gael gwared â'r seiliau ar gyfer asedau a ffordd o fyw, er eu bod yn gyffredinol yn cytuno gyda'r cynnig i allu cael gafael ar y wybodaeth am incwm a gynhyrchir gan ased.

- Roedd Gingerbread yn bryderus am "rhieni dibreswyl sydd ag ased all gynhyrchu incwm y maent hwy yn dewis peidio â'i ddefnyddio".

- Dywedodd The Law Society of Scotland "Byddai cael gwared â'r y seiliau hyn yn gwneud cyfrifiadau yn haws i CMEC, ond byddai hefyd yn gwneud bywyd yn llawer haws i rieni dibreswyl cefnog sy'n gallu elwa o gyngor cyfreithiol".

**Ymateb y Llywodraeth**

32. Bydd incwm o asedau yn cael ei gasglu yn uniongyrchol gan CThEM. Bydd y wybodaeth yma wedi cael ei chynnwys wrth ystyried pethau eraill fel dibrisiant a chostau ac mae'n gwaredu ar yr angen i ystyried ffactorau fel y rhain fel sy'n rhaid gwneud ar hyn o bryd wrth geisio sefydlu incwm tybiannol.

33. Bydd yr addasiad yma yn lleihau'r nifer o amrywiadau fel hyn a gaiff eu cyfeirio at yr adran Apeliadau, a bydd hyn yn arwain at arbed costau, amser ac adnoddau.

34. Mae'r sail ar gyfer ffordd o fyw sy'n anghyson ag incwm a ddatgenir yn anodd eu gweinyddu ac yn fwrn ar adnoddau. Rydym yn cydnabod y bydd rhai rhieni â gofal yn parhau i gael eu heffeithio arnynt mewn ffordd negyddol gan y rhieni dibreswyl hynny sydd â ffordd o fyw anghyson gaiff ei gynnal gan drydydd parti neu drwy weithio mewn economi anffurfiol; fodd bynnag, rydym yn hyderus y bydd y cynllun amrywiadau newydd yn welliant ar y cynlluniau presennol.

**Canlyniad**

35. Bydd y cynnig yma yn addasu'r ddeddfwriaeth Amrywiadau yn unol â'r ymgyrch i symlu ac i gyflymu'r broses o gyfrifo cynhaliaeth plant. Byddwn yn parhau gyda'r cynnig i gael gwared ar y seiliau hyn am y rheswm eu bod yn anodd eu gweinyddu, yn gymhleth i swyddogion achos a chleientiaid geisio eu deall ac y bydd gwybodaeth incwm gwirioneddol gan CThEM yn golygu mwy i rieni.
36. Mae hyn yn ategu'r rhesymeg o gyflwyno 'incwm heb ei ennill' er mwyn gallu casglu ystod ehangach o fathau incwm.

**Cwestiwn Ymgynghori 6: Ydych yn cytuno y dylai cyfraddau canrannol a gymhwysir ar gyfer plant perthnasol eraill gael eu gostwng er mwyn sicrhau bod plant mewn teulu cyntaf ac ail deuluoedd yn cael eu trin yn fwy teg?**

37. Mae plentyn perthnasol arall yn un sydd fel arfer yn byw yng nghartref rhiant dibreswyl ac y mae'r rhiant dibreswyl neu eu partner yn cael Budd-dal Plant ar eu cyfer. Nid yw cynhaliaeth plant yn gwahaniaethu rhwng

plentyn perthnasol arall sy’n blentyn i’r rhiant dibreswyl a phlentyn arall sy’n blentyn i’w partner presennol.

38. Yn y pen draw, mae cael plentyn perthnasol arall yn golygu y bydd y rhiant dibreswyl yn talu llai o gynhaliaeth statudol. Ar gyfer achosion ar y gyfradd sylfaenol (ble caiff y rhiant dibreswyl eu hasesu fel bod yn ennill £200 neu fwy o incwm gros bob wythnos), gwneir hyn drwy wneud gostyngiadau canrannol i incwm y rhiant dibreswyl ar yr un cyfraddau ag y cymhwysir wrth gyfrifo cynhaliaeth plant ar gyfer plant cymwys.

39. Mae defnyddio’r un canrannau yn golygu bod cyfran fwy o incwm rhiant dibreswyl yn cael ei neilltuo ar gyfer y plentyn perthnasol arall yn hytrach na’r plant yn cymwys. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig defnyddio set o ganrannau is ar gyfer plant perthnasol eraill er mwyn gallu rhannu’r incwm yn fwy cyfartal.

**Sylwadau’r ymatebwyr**

40. Mae’r rhan fwyaf o ymatebion yn cefnogi’r egwyddor o drin plant yn fwy cyfartal.

- NACSA – Dywedodd NACSA “rydym yn credu ei bod yn hanfodol i bob plentyn gael ei drin gyda chydraddoldeb a dylai’r egwyddor yma barhau i fod wrth wraidd unrhyw Gynllun Statudol”.

**Ymateb y Llywodraeth**

41. Mae’r Llywodraeth wedi ystyried sawl opsiwn ar gyfer newidiadau i’r cyfraddau a gymhwysir i blant perthnasol eraill. Bydd yr opsiwn a gymeradwyir yn rhoi mwy o gydraddoldeb i blant sy’n rhan o gartref presennol a chartref gwreiddiol y rhiant dibreswyl.

**Canlyniad**

42. Mae’r Llywodraeth yn cynnig cyflwyno addasiad fydd yn lleihau’r cyfraddau ar gyfer plant perthnasol eraill fel y dengys isod:

1. 11 y cant ar gyfer un plentyn
2. 14 y cant ar gyfer dau blentyn
3. 16 y cant ar gyfer tri neu fwy o blant

## Cwestiwn Ymgynghori 7: Ydych chi’n cytuno gyda’r cynllun i gynyddu cyfradd unffurf cynhaliaeth?

43. Mae’r gyfradd unffurf o gynhaliaeth yn gymwys pan mae rhiant dibreswyl yn cael budd-dal penodol neu fod ganddynt incwm wythnosol o dan £100. Fe’i gosodwyd yn 2000 ac nid yw wedi cynyddu ers hynny. O dan Ddeddf

Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008 fe godwyd y gyfradd unffurf i £7 ar gyfer y cynllun statudol cynhaliaeth plant newydd.

**Sylwadau'r ymatebwyr**

44. Roedd yna gydnabyddiaeth gyffredinol nad oedd y gyfradd unffurf bresennol wedi newid ers dros 10 mlynedd ac nid oedd cynnydd o £7 i'w weld yn afresymol. Roedd rhywfaint o gefnogaeth gan fudd-ddeiliaid allweddol am gynnydd pellach dros £7; fodd bynnag, roedd budd-ddeiliaid gan amlaf yn ystyried fod cynnydd o'r fath yn rhoi baich eithafol ar y rhieni dibreswyl tlotaf.

- Dywedodd Resolution "Ar gyfer rhiant dibreswyl tlawd, byddai ffigwr uwch yn gosb yn hytrach na bod o les i'w ymrwymiad positif gyda'u plant".

- Dywedodd Gingerbread "buasem yn gwrthwynebu unrhyw gynnydd pellach dros £7 oherwydd modd cyfyngedig rhieni dibreswyl ar fudd-dal".

- Nododd Famlies Need Fathers "Mae llawer o rieni dibreswyl sy'n byw ar Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) ac ar gyflog isel yn methu a gofalu am eu plant cymaint y dymunant oherwydd y costau teithio uchel cysylltiedig. Buasai codi'r gyfradd o atebolrwydd yn gostwng ymhellach eu gallu i fod yn rhan o fywyd eu plentyn".

45. Fodd bynnag, roedd y Law Society of Scotland a'r Family Law Bar Association yn cefnogi cynnydd pellach.

- Dywedodd The Family Law Bar Association "Mae'r codiad sydd wedi'i awgrymu yn ymddangos i fod yn taro balans gweddus rhwng cynnydd i adlewyrchu'r amgylchiadau economaidd gyffredinol bresennol, i sicrhau fod swm ystyrlon yn cael ei dalu ac i wneud y cynnydd ychwanegol yn dderbyniol i dalwyr incwm isel.

**Ymateb y Llywodraeth**

46. Mae'r Llywodraeth yn nodi pryderon budd-ddeiliaid. Fodd bynnag, er mwyn dod a'r didyniad unffurf fwy mewn llinell gyda'r canrannau a gymhwysir ar rieni dibreswyl sy'n gweithio, rydym yn cynnig i'r gyfradd unffurf o gynhaliaeth gael ei osod yn £10 yr wythnos pan fydd y cynllun newydd yn agor i bob ceisydd. Hyd hynny bydd yn aros yn £5.

47. Y bwriad yw cyflwyno'r cynllun statudol cynhaliaeth plant i mewn yn raddol. O ganlyniad, i gychwyn, bydd cyfradd unffurf o £5 yn gymwys i bob cais i'r cynllun newydd i sicrhau paredd gyda'r gyfradd unffurf a delir mewn cynlluniau presennol.

48. Pan agorir y cynllun newydd i'r ceiswyr i gyd yna bydd y gyfradd unffurf yn codi i £10 i adlewyrchu'r costau uwch o fagu plentyn, effaith chwyddiant ac i ddod a chynhaliaeth plant cyfradd unffurf mewn llinell a'r canrannau a

defnyddir mewn cyfrifiad cynhaliaeth ar gyfer rhiant dibreswyl sy'n gweithio.

49. Nid yw'r gyfradd unffurf wedi cael ei ddiweddaru ers iddo gael ei osod yn £5 yn 2000. Yn 2003/4 roedd y gyfradd unffurf o £5 yn cynrychioli 9 canran o Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau (ar gyfer person sengl dros 25). Yn 2012/13 bydd y gyfradd unffurf o £10 yn cynrychioli tua 14 canran o Lwfans Ceisio Gwaith wythnosol person sengl.

50. Bydd y codiad yma yn y gyfradd unffurf yn codi ymhellach y swm sy'n llifo i blant ac yn adlewyrchu yn fwy agos y gynhaliaeth mae rhieni dibreswyl mewn gwaith, ond nid ar gyfradd unffurf, yn gorfod ei dalu.

**Casgliadau**

51. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno cyfradd unffurf o £10 ar gyfer y cyfan o achosion cynllun newydd.

**Cwestiwn Ymgynghori 8: A ydych yn cytuno gyda'r cynnig i berswadio rhieni dibreswyl sydd gan atebolrwydd cynhaliaeth yn seiliedig ar incwm cyfredol i hysbysu newidiadau uwch?**

**Cwestiwn Ymgynghori 9**: **Beth ydych yn ei feddwl o'r cynnig i gymhwyso'r orfodaeth yma ar rieni dibreswyl cyflogedig yn unig (h.y. nid rhieni sydd yn hunangyflogedig neu sydd ag elfen o incwm heb ei ennill)?**

52. Mae rhieni dibreswyl yn fwy tebygol o ddweud am ostyngiadau yn eu hincwm na chynyddiadau. I helpu gydbwyso hyn rydym yn cynnig yn y cynllun newydd i orfodi rheini dibreswyl cyflogedig i hysbysu'r Comisiwn o fewn saith diwrnod os ydynt yn gweld newid o 25 y cant yn eu hincwm presennol. Gall hyn fod oherwydd swydd newydd, codiad cyflog neu newid mewn oriau gwaith.

53. Ni fyddwn yn gorfodi'r rhieni dibreswyl hynny sydd yn hunangyflogedig neu sydd ag elfen o incwm heb ei ennill i'n hysbysu o gynnydd yn eu hincwm oherwydd mae'n debygol na fyddant yn gwybod beth fydd eu helw tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Sylwadau'r ymatebwyr**

54. Mae'r mwyafrif o fudd-ddeiliaid yn cytuno gyda'r cynnig yma, ond roedd consensws nad yw'r terfyn amser o saith diwrnod yn realistig.

55. Mae rhai budd-deiliaid hefyd wedi nodi gwrthwynebiad i'r cynnig i eithrio'r rhieni dibreswyl hynny sydd yn hunangyflogedig neu sydd gan elfen o incwm heb ei ennill.

- Mae NACSA wedi nodi bod gan "y rhiant dibreswyl hunangyflogedig fwy o botensial i drin a newid manylion eu hincwm".

- Mae Resolution yn teimlo bydd "y cynnig yma yn galluogi rhieni dibreswyl hunangyflogedig i leihau eu hatebolrwydd cynnal plant yn gyfreithlon".

- Mae Cymdeithas Deddf Cyfraith Teulu yn cytuno "y byddai'n anodd felly i sefydlu'r adeg pan roddir unrhyw ofyniad i'r hunangyflogedig wneud adroddiad ar waith neu sut gellir gorfodi gofyniad o'r math yma yn effeithiol.".

**Ymateb y Llywodraeth**

56. Barn y Llywodraeth yw bod gorfodi rhieni dibreswyl i'n hysbysu o gynnydd yn eu hincwm yn rhan bwysig o gadw atebolrwydd cynhaliaeth gyfredol mewn grym ar gyfer rhieni â gofal ac felly'n sicrhau bod y plant yn derbyn y swm cywir o arian.

57. Cytunwyd yn wreiddiol na fyddai newidiadau canol-blwyddyn mewn incwm rhieni dibreswyl sy'n hunangyflogedig, neu sydd gydag elfen o'u hincwm heb ei ennill yn cael eu derbyn oni bai eu bod yn gallu dangos tystiolaeth o flwyddyn dreth gyflawn. Byddai felly yn afresymol i orfodi'r rhieni dibreswyl yma i roi gwybod am gynnydd mewn incwm, yn yr un ffordd nad ydym yn derbyn gostyngiad mewn incwm gan rieni dibreswyl hunangyflogedig oni bai eu bod wedi'u cefnogi gan dystiolaeth blwyddyn treth gyflawn.

**Casgliadau**

58. Rhoddwyd ystyriaeth i'r amser a roddir i rywun i ddweud wrthym am newid. Dewiswyd saith diwrnod i gyd-fynd gyda'r amser a roddir i rieni dibreswyl i ddweud wrthym am newid i'w cyfeiriad. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cytuno gyda budd-ddeiliadid nad yw terfyn amser o saith diwrnod i ddweud wrthym am gynnydd mewn incwm ar gyfer yr amgylchiadau yma yn ymarferol ac yn argymell newid hwn i 14 diwrnod i gyd-fynd â'r amser a roddir i geisiadau am wybodaeth.

59. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig y dylid cymhwyso'r diwygiad o orfodi rhieni dibreswyl i'n cynghori o newidiadau o 25 y cant yn eu hincwm presennol. Ni fydd y gofyniad yma yn berthnasol i rieni dibreswyl hunangyflogedig neu rieni dibreswyl sydd ag elfen o incwm sydd heb ei ennill.

**Cwestiwn Ymgynghori 10: Ydych chi'n meddwl y dylai swm Penderfyniad Cynhaliaeth Ddiffyg gael ei gynyddu yn unol â chwyddiant?**

60. Caiff Penderfyniad Cynhaliaeth Ddiffyg ei wneud pan nad oes gwybodaeth ddigonol am amgylchiadau rhiant dibreswyl i allu gwneud cyfrifiad llawn.

Bydd hyn fel arfer yn gymwys pan nad yw'n bosibl i sefydlu incwm y rhiant dibreswyl.

61. Mae'r symiau wythnosol presennol o £30 ar gyfer 1 plentyn cymwys, £40 ar gyfer 2 blentyn cymwys a £50 y cant am 3 plentyn cymwys neu fwy wedi cael eu gosod yn 2000 ac nid ydynt wedi cynyddu ers hynny.

**Sylwadau'r Ymatebwyr**

62. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi cynnydd yn unol â chwyddiant. Roedd unrhyw sylwebaeth gritigol yn tueddu i argymell mwy o ymdrech gan y Comisiwn i sefydlu gwir incwm rhieni dibreswyl neu i ddefnyddio gwybodaeth gan ffynonellau eraill fel Arolwg Blynyddol O Oriau ac Enillion yr Adran Gwaith a Phensiynau (ASHE) i amcangyfrif incwm.

- Mae NACSA "yn credu nad yw'r cynllun presennol yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng methu darparu gwybodaeth a gwrthod darparu gwybodaeth".

- Resolution, tra ddim yn gwrthwynebu i'r cynnydd, mae Resolution wedi codi pwyntiau tebyg iawn i NACSA, gan ychwanegu y dylai "CMEC wneud llai o ddefnydd o Benderfyniadau Cynhaliaeth Ddiffyg ac anelu at wneud asesiadau cynhaliaeth llawn drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) pan nad oes unrhyw dystiolaeth arall ar gael".

- Roedd Gingerbread yn cefnogi'r cynyddiadau yma, ond maent yn "argymell ble mae rhiant dibreswyl wedi talu Cynhaliaeth Ddiffyg am gyfnod o 12 mis, dylai'r Comisiwn gynnal ymchwiliad".

**Ymateb y Llywodraeth**

63. Bydd cael yr hawl i weld gwybodaeth incwm gan CThEM yn lleihau'r nifer o achosion ble fydd angen penderfyniad cynhaliaeth ddiffyg. Bydd gwneud defnydd effeithiol o Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yr Adran Gwaith a Phensiynau (ASHE) i amcangyfrif incwm hefyd yn lleihau'r nifer o achosion ble mae penderfyniad ddiffyg mewn grym.

64. Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylid cynyddu graddau cynhaliaeth ddiffyg gydag adolygiadau cyfnodol o'r symiau o hyn allan. Bydd hyn yn annog rhieni dibreswyl i ddarparu tystiolaeth o'u hincwm ble nad oes gwybodaeth ar gael gan CThEM. Bydd hefyd yn sicrhau bod mwy o arian yn mynd i blant.

**Casgliadau**

65. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynyddu'r graddau cynhaliaeth ddiffyg i £39 ar gyfer un plentyn, £51 am ddau blentyn a £63 am dri phlentyn neu fwy.

## Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr yr ymgynghoriad

| |
|---|
| Gingerbread |
| |
| Families Need Fathers |
| |
| Low Incomes Tax Reform Group |
| |
| Matchmothers |
| |
| The Law Society of Scotland |
| |
| Resolution |
| |
| National Association for Child Support Action (NACSA) |
| |
| Women's Support Network |
| |
| Rights of Women |

| |
|---|
| |
| Low Incomes Tax Reform Group |
| |
| Anne Redstone Barrister and Professor of Tax Law |
| |
| Morton Fraser LLP |
| |
| UKFRM |
| |
| The Law Society |
| |
| FLBA |
| |
| Chartered Institute of Payroll Professionals (CIPP) |
| |
| 20 ymateb unigol |
| |